**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 21 Gorffennaf 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Durke (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| B Hopkins | L R Jones | H Lawson |
| M B Lewis | S Pritchard | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Helen Morgan-Rees | cyfarwyddwr addysg |
| Stephen Holland | Uwch-Gyfreithiwr |

**Hefyd yn bresennol:**
Yr Athro Christopher Chapman – Prifysgol Glasgow

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice, M A Langstone a/ac D W W Thomas

---

## 7 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 8 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021 fel cofnod cywir.

## 9 Yr Athro Christopher Chapman PhD MA BSc (Anrh) FAcSS FRSA (Prifysgol Glasgow).

Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Chapman i'r cyfarfod a diolchodd iddo am ei bresenoldeb.

Yna rhoddodd yr Athro Chapman wybodaeth i'r Aelodau am ei swydd bresennol ym Mhrifysgol Glasgow, a'i gefndir yn y proffesiwn addysg dros y blynyddoedd.

Amlinellodd y ddwy brif raglen y mae wedi bod yn ymwneud â nhw ers symud i'r Alban yn 2013 - cyntaf yw "The Network for Social and Educational Equity" Network for Social and Educational Equity  sydd wedi datblygu drwy bartneriaethau rhwng y

brifysgol, awdurdodau lleol a chyrff amrywiol eraill i ffurfio Partneriaeth Gwella Rhanbarthol Gorllewin yr Alban, sydd bellach yn cynnwys 8 awdurdod lleol a thua 35% o'r plant yn yr Alban.

Yr ail brosiect yw "Children's Neighbourhoods Scotland" Children's Neighbourhoods Scotland sef ymagwedd sy'n fwy seiliedig ar leoedd a chyfannol o fynd i'r afael â thlodi plant a datblygu llais pobl ifanc.

Mae'r prosiect cyntaf yn tueddu i ganolbwyntio'n fwy ar yr ysgol ac mae’r ail yn edrych yn fwy ar gysylltedd ac ymagweddau sy'n seiliedig ar leoedd. Mae ymchwil sy'n seiliedig ar ddylunio yn sail i'r ddau.

Cyfeiriodd at lyfr a gyhoeddwyd yn ddiweddar o'r enw "*Educational Equity: Pathways to Success*", yr oedd wedi'i gyd-olygu gyda Mel Ainscow a oedd wedi gweithio yng Nghymru’n flaenorol. Mae'r llyfr yn dogfennu'r rhaglen waith a gyflawnwyd ers 2013.

Nododd mai'r man cychwyn ar gyfer llawer o'r gwaith yw na all ysgolion fynd i'r afael â thlodi a chreu system addysgol sy'n deg ac sy'n cefnogi plant i gyflawni wrth ynysu. Mae'r ymagwedd yn dechrau ar lefel ystafell ddosbarth ond mae'n ystyried yr ymagwedd ysgol ehangach hefyd, yn ogystal ag ystyried dylanwad cymdeithas a chymunedau ehangach.

Amlinellwyd y ffyrdd y gall ysgolion rannu arferion da a syniadau, symud gwybodaeth drwy rwydwaith ac ymagwedd gydweithredol.

Y nod yw i'r holl bartneriaid gydweithio a chydweithredu gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd ac yn dilyn dadansoddiad, ddatblygu dulliau newydd a chefnogi'r gwaith o ddatblygu system addysg decach. Mae cydweithio, cyd-gynhyrchu ac ystyried tystiolaeth, arbenigedd a phrofiad y gwahanol bartneriaid yn helpu i ddatblygu syniadau a dulliau gweithredu newydd.

Amlinellodd fod cylchoedd profi a mireinio'r prosesau a'r arferion ar waith, gyda newidiadau a modelau darparu yn cael eu monitro a’u diweddaru os oes angen. Cymerir agwedd ymarferol at newid.

Mae'r nod o gael y plant yn yr ystafell ddosbarth i gymryd rhan a'u hysgogi i ddysgu yn elfen allweddol o unrhyw lwyddiant wrth symud ymlaen, oherwydd heb i'r bobl ifanc ymuno ac ymgysylltu â'u hathro a'r broses ddysgu, mae'n arwain yn ddieithriad at broblemau yn y dyfodol.

Mae'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'r prif nod o leihau'r bylchau yng nghyllid y prosiect cydraddoldeb cymdeithasol yn seiliedig ar ddull cydweithredol ar lefel ysgol a rhwydwaith/clwstwr, mae gan glystyrau aelod penodedig o staff wedi'i neilltuo iddynt i roi cyngor a chymorth, a chynorthwyo gyda rhannu arferion da ac ati. Byddai'r aelod o staff fel arfer yn ymweld ag ysgolion ddwywaith y tymor ac yn cynnal cyfathrebu rheolaidd drwy e-bost/ffôn i gynnal y cylch casglu tystiolaeth.

Mae'r cynllun yn gweithredu ar sail dynn/llac, gyda'r egwyddorion yn cael eu cynnal a'u cadw'n dynn ond mae'r gwaith o weithredu o ddydd i ddydd a phroses rhoi ar waith ysgolion unigol yn cael ei reoli'n fwy llac.

Fel arfer, mae’r angen i fuddsoddi a rhoi cyfleoedd i athrawon a staff feithrin gallu a chael cyfle i ddysgu a gwella yn broses tri cham. Y cam cyntaf yw meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd, yna ymgorffori'r syniadau ac yn olaf anelu at gynaliadwyedd tymor hir, gydag ysgolion yn ymgymryd â'r rôl o ddatblygu pethau wrth symud ymlaen.

Yna manylodd ymhellach ar yr egwyddorion allweddol sy'n sail i'r prosiect cymdogaethau,  sef mai prosiect sy'n seiliedig ar leoedd ar draws 6 safle yw, gyda chymysgedd o leoliadau trefol a gwledig. Mae'r un materion a phroblemau sy'n effeithio ar y gwahanol gymunedau mewn ffyrdd tebyg ond mewn gwahanol leoliadau yn cael eu harchwilio ac mae cefndir y cynllun wedi dod o sail eang o gynlluniau a syniadau o brosiectau yn UDA a Gogledd Iwerddon.

Mae'r cynllun wedi'i leoli yn y gymdogaeth a’i nod yw gwella canlyniadau i bobl ifanc mewn tlodi ac mae'n ceisio grymuso ac ymgysylltu â phobl ifanc.

Caiff ei arwain gan y brifysgol mewn partneriaeth â chyrff eraill ac mae ganddo ddau brif ymagwedd, y cyntaf yw ymgysylltiad gweithredol a hyfforddi pobl ifanc fel cyd-ymchwilwyr i'w cynnwys a thynnu sylw at y problemau a'r materion sy'n effeithio ar eu cymunedau.

Defnyddir ymagwedd effaith ar y cyd sy'n golygu bod staff ymchwil ym mhob un o'r 6 lleoliad sy'n casglu data a gwybodaeth, ac yna penodir cydlynwyr lleol ar gyfer pob ardal i weithio 'ar lawr gwlad' a cheisio cydlynu rhwng y gwahanol asiantaethau dan sylw. Mae'r cydlynwyr lleol hyn wedi'u lleoli mewn lleoedd fel ysgolion, clybiau ieuenctid a chymdeithasau tai fel eu bod yn cael gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ardal y maent yn gweithio ynddi.

Yna gofynnodd yr Aelodau a'r Swyddogion nifer o gwestiynau a gwnaed sylwadau amrywiol am gyflwyniad yr Athro Chapman, gan gynnwys pynciau yn ymwneud â chyfranogiad y sector preifat mewn prosiectau, rôl y cydlynwyr lleol, materion cymdeithasol a chymunedol, problemau rhwng cenedlaethau, cymunedau difreintiedig, canlyniadau ac effaith y mentrau hyd yma, effaith COVID-19 ar ddysgu a'i effaith ar ddysgu yn y dyfodol.

Ymatebodd yr Athro Chapman i'r rhain ac atebodd yr ymholiadau a'r sylwadau amrywiol yn unol â hynny.

Diolchodd y Cadeirydd a'r aelodau i'r Athro Chapman eto am ei gyflwyniad a oedd yn rhoi trosolwg, ac am ei gyfraniad i'r pwyllgor.

Yna trafododd yr aelodau'r materion a'r pynciau a godwyd yn y cyflwyniad.

Amlinellodd Helen Morgan-Rees fod gan Gyngor Abertawe gydlynwyr ardaloedd lleol ond nid yw eu rôl yn ymdrin â materion addysgol a'i bod yn fwy seiliedig ar gymorth i oedolion yn y gymuned.

Cyfeiriodd at y gwaith da sydd eisoes yn mynd rhagddo yn Abertawe gan gynghorwyr gwella ysgolion i rannu arfer da rhwng ysgolion a manylodd ar y gwaith hwn. Cyfeiriodd hefyd at bwysigrwydd y grant datblygu disgyblion i ysgolion a'i rôl ganolog wrth geisio gwella addysg i bobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig. Amlinellodd hefyd y gwaith blaenorol a pharhaus a wnaed gyda Phrifysgol Durham i hyrwyddo ymagweddau addysg sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn ysgolion.

## 10 Cynllun Gwaith 2021/2022.

Yn dilyn y cyflwyniad a'r drafodaeth a gynhaliwyd yn ystod yr eitem flaenorol, trafododd y Cadeirydd a'r aelodau'r meysydd pwnc posib a'r wybodaeth yr hoffent ei chael wrth symud ymlaen mewn cyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn gwella eu gwybodaeth am y posibilrwydd o ddatblygu mentoriaid/hyrwyddwyr cymunedol wrth symud ymlaen.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) bydd y cyfarfod ym mis Medi yn derbyn data a dangosyddion wedi'u targedu gan swyddog data’r adran Addysg mewn perthynas ag effaith COVID-19, yn seiliedig ar y cynnydd yn nifer y prydau ysgol am ddim a dangosyddion ynghylch pa mor agored i niwed yw disgyblion.

2) Caiff ysgolion cyfun Pentrehafod a Dylan Thomas eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd yn yr hydref i roi gwybodaeth a chefndir ar eu rhwydweithiau, eu clystyrau a’u partneriaethau o fewn y gymuned i gefnogi'r cysyniad o hyrwyddwyr/fentoriaid dysgu cymunedol.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.12 pm

**Cadeirydd**